YR ADOLYGIAD O'R
GOFRESTR ELUSENNAU

Cadw cofrestr elusennau gywir

Tachwedd 2000

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y ffordd orau bosibl er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a ffydd a hyder y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau arbennig o elusennau gofrestru. Mae tua 180,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau'r Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu i ddatrys problemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym materion elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Cynnwys

Am y cyhoeddiad hwn	2
Pam mae'r Gofrestr yn bwysig?	2
Cadw Cofrestr gywir	2
Dileu sefydliad o'r Gofrestr	2
Adolygu penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr	3
Camreoli eiddo elusen	3
Rhesymau dros ddileu o'r Gofrestr	3
Atodiad A Dileu sefydliadau o'r Gofrestr	8
Atodiad B Elusennau ffug	9
Atodiad C Elusennau sy'n cael eu cofrestru ar gam	10
Atodiad Ch Defnyddio asedau cy-près	11
Atodiad D Eiddo a ddelir gan gwmnïau elusennol	12

Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi'r camau y bydd y Comisiwn yn eu cymryd, a'r rhesymau dros y camau hynny, os daw i'r amlwg nad yw'r Gofrestr Elusennau yn gofnod cywir o'r sefydliadau hynny sydd â statws elusennol ac a ddylai fod ar y Gofrestr.

2. Rydym wedi ystyried y gwaith o gynnal y Gofrestr fel rhan o'n Hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau[1]. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad cyhoeddus a arweiniodd at lunio'r polisi a esbonnir yn y cyhoeddiad hwn. Mae esboniadau manwl o agweddau ar ein polisi i'w gweld yn yr atodiadau.

Pam mae'r Gofrestr yn bwysig?

3. Mae cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yn cadarnhau statws elusennol. Ni all neu nid yw'n ofynnol i rai categorïau o elusennau gael eu cofrestru:

   - elusennau a elwir yn "elusennau a esgusodir". Mae'r rhain wedi'u hesgusodi o'n hawdurdodaeth orchwylio ac ni allant gael eu cofrestru gyda ni;
   - elusennau sydd wedi'u heithrio gan Orchymyn neu Reoliadau o unrhyw ofyniad i gofrestru;
   - elusennau sydd heb waddol parhaol ac nid oes unrhyw dir ganddynt i'w ddefnyddio neu ei feddiannu ac nid yw eu hincwm o bob ffynhonnell yn dod i gyfanswm o fwy na £1,000 y flwyddyn; ac
   - nid yw'n ofynnol i unrhyw elusen gael ei chofrestru ar gyfer unrhyw le addoli cofrestredig.

4. Ar wahân i'r categorïau hyn mae cofrestru'n rhoi cydnabyddiaeth i sefydliadau o'u statws elusennol. Mae adran 4 o Ddeddf Elusennau 1993 yn darparu'n benodol fel a ganlyn; "rhagdybir yn bendant y bydd sefydliad at bob diben heblaw cywiro'r Gofrestr yn elusen neu wedi bod yn elusen ar unrhyw adeg pan yw neu pan yr oedd ar y Gofrestr Elusennau."

5. Felly mae'n hollbwysig bod y Gofrestr wedi'i chyfyngu i'r sefydliadau hynny sydd â hawl ar hyn o bryd i gael eu statws elusennol wedi'u cydnabod drwy gofrestru.

Cadw Cofrestr gywir

6. Ein cyfrifoldeb ni yw cadw Cofrestr gywir sy'n golygu bod rhaid i ni roi sylw arbennig i'r camau y mae'n rhaid i ni ac ymddiriedolwyr sefydliadau ar y Gofrestr eu cymryd i sicrhau bod eiddo elusennau yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol.

7. Defnyddiwn ein pwerau i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol ac adnabod a chydnabod nodau elusennol newydd. Bydd sefydliadau sydd â nodau elusennol newydd o'r fath yn cael eu cynnwys ar y Gofrestr ar yr amod eu bod nhw'n bodloni pob maen prawf arall ar gyfer cofrestru. Ar yr un pryd gall fod sefydliadau ar y Gofrestr sydd heb fod yn elusennol.

Dileu sefydliad o'r Gofrestr

8. Fel y dewis olaf, ar ôl archwilio pob llwybr arall, mae dyletswydd arnom, o dan adran 3(4) o Ddeddf Elusennau 1993, i ddileu sefydliad o'r Gofrestr os yw'n ymddangos i ni nad yw sefydliad hwnnw yn elusen mwyach[2]. Wrth gwrs, ni fyddwn yn gwneud hyn oni bai bod rhesymau clir dros wneud hynny. Mae'r sail gyfreithiol dros ddileu sefydliad o'r Gofrestr wedi'i nodi yn Atodiad A. Mae hyn yn cynnwys esboniad o'n rhwymedigaeth i ddileu unrhyw elusen sydd wedi peidio â bodoli neu sydd heb fod yn gweithredu.

1 Mae ein cyhoeddiad RR1 - Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau - yn esbonio'r prosesau adolygu yn fanwl a hefyd yn amlinellu nodweddion hanfodol elusen.

2 Nid yw cyflawni ein dyletswydd o dan yr adran hon o'r Ddeddf yn dibynnu ar dderbyn cais allanol sy'n gofyn i sefydliad gael ei ddileu o'r Gofrestr. Mae adran 4(2) yn cynnig modd i rywun sy'n cael ei effeithio gan gofrestru corff fel elusen wneud cais i ni i'w ddileu. Gall ceisiadau o'r fath gael eu cyflwyno gan rywun y gall ei fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill ei hun gael eu niweidio drwy ddosbarthu corff fel corff elusennol.

9. Os yw sefydliad yn cael ei ddileu o'r Gofrestr ar y sail ei fod yn ymddangos i ni nad yw'n elusen mwyach, mae dyletswydd arnom i ystyried:

   - a yw ymddiriedolaethau elusennol (er nad yw'r sefydliad ei hun yn elusen mwyach) yn parhau i fod yn gymwys i eiddo sydd wedi'i gysylltu â'r sefydliad; ac, os felly
   - pa gamau y dylem ni eu cymryd i orfodi'r ymddiriedolaethau hynny.

Adolygu penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr

10. Nid yw'r penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr ar y sail ei fod yn ymddangos i ni nad yw'r sefydliad yn elusen mwyach yn un y byddai'r Comisiwn yn ei gymryd heb ystyriaeth lawn. Bydd cyfle gan y sefydliadau a effeithir i ofyn i ni gynnal adolygiad mewnol o benderfyniad rhagarweiniol i'w dileu o'r Gofrestr. Bydd rhywun sy'n annibynnol ar y penderfyniad gwreiddiol yn cynnal yr adolygiad hwn. Rhaid i gais am adolygiad o un o'n penderfyniadau gael eu gwneud cyn pen tri mis o ddyddiad y penderfyniad perthnasol. Yn gyfreithiol mae'r sefydliad yn parhau ar y Gofrestr yn ystod y cyfnod hwn. Mae canllawiau llawn ar y gweithdrefnau ar gyfer adolygiad o'n penderfyniadau wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan – ar y safle "Am y Comisiwn Elusennau" sydd i'w weld o dan yr eicon "Amdanom ni". Gallwch wneud cais am gopïau papur o'r canllawiau hyn drwy unrhyw un o'n swyddfeydd.

11. Os ydym yn cadarnhau, ar ôl cynnal adolygiad annibynnol mewnol, y penderfyniad i ddileu sefydliad o'r Gofrestr, neu os na chafwyd cais am adolygiad o fewn y cyfnod o dri mis a nodwyd uchod, mae'r penderfyniad i ddileu yn weithredol yn gyfreithiol, ac mae'r sefydliad yn cael ei ddileu o'r Gofrestr. Yna mae gan y sefydliad hawl statudol i apelio yn erbyn y penderfyniad i'w ddileu yn yr Uchel Lys (adran 4(3) o Ddeddf Elusennau 1993). Bydd hyn yn cynnwys y Twrnai Gwladol yn hytrach na'r Comisiwn.

Camreoli eiddo elusen

12. Rhaid gwahaniaethu rhwng yr angen i gynnal Cofrestr gywir (h.y. Cofrestr sy'n cynnwys dim ond sefydliadau gydag amcanion sy'n elusennol yn ôl y gyfraith) a sefyllfa lle mae amcanion sefydliad yn amlwg elusennol, ond lle mae'r ymddiriedolwyr yn ei weithredu mewn ffordd sy'n anghyson â'i amcanion elusennol.

13. Gall sefydliad gael ei adnabod fel un sydd â gweithgareddau sydd heb fod yn elusennol, er bod ei amcanion yn elusennol. Os mai dyma yw'r achos, byddwn yn cynnig cyngor ar sut y gall y sefydliad barhau i ymgymryd â'i amcanion drwy weithredu mewn ffordd elusennol yn unig. Gallai hyn gynnwys cyfyngu neu newid rhai gweithgareddau presennol neu eu rhoi i is-gwmnïau anelusennol.

14. Mewn achosion lle mae ymddygiad yr ymddiriedolwyr yn cael ei ystyried yn "gamymddygiad" neu'n "gamreoli" ni fyddwn yn dileu sefydliad o'r Gofrestr fel arfer. Yn lle hynny, byddwn yn defnyddio ein pwerau adfer i sicrhau bod yr elusen yn dilyn ei hamcanion elusennol. Mae ein canllaw Cwynion am Elusennau (CC47) yn esbonio yn gyffredinol y pwerau sydd gennym i ymchwilio i elusennau ac unioni pethau. Bydd eithriad mewn nifer cyfyngedig o achosion lle y dangosir bod y sefydliad yn un ffug. Mae'r hyn rydym yn ei olygu wrth "ffug" yn cael ei esbonio yn Atodiad B.

Rhesymau dros ddileu o'r Gofrestr

A. Cofrestru ar Gam

15. Efallai fod sefydliad sydd erioed wedi bod yn elusennol wedi cael ei roi ar y Gofrestr ar gam. Gallai hyn fod wedi digwydd oherwydd:

   - cawsom ni wybodaeth anwir neu anghywir adeg cofrestru; neu
   - oherwydd ein bod ni wedi gwneud camgymeriad; neu

- oherwydd mae penderfyniad dilynol gan y llys wedi dangos bod barn gyffredinol cyfraith gwlad yn anghywir; neu
- oherwydd dangoswyd bod y sefydliad, ers iddo gael ei gofrestru, yn un ffug.

16. Beth bynnag fo'r rheswm dros gofrestru ar gam, pan fydd hynny wedi'i gydnabod, mae adran 3(4) o Ddeddf Elusennau 1993 yn rhoi dyletswydd arnom i gywiro'r Gofrestr drwy ddileu'r sefydliad. Pan fyddwn yn dileu sefydliad o'r Gofrestr oherwydd roedd ei gynnwys yn gamgymeriad, ni fydd yr asedau erioed wedi'u dal at ddibenion elusennol. Dyma yw'r achos hyd yn oed os cymerwyd eu bod nhw'n cael eu dal felly adeg cofrestru. Mae dileu'r sefydliad o'r Gofrestr yn cywiro'r camgymeriad.

17. Bydd asedau sefydliad sydd erioed wedi bod yn elusen gyfreithiol yn parhau ym meddiant y sefydliad hwnnw pan gaiff ei ddileu o'r Gofrestr[3]. Ni fydd yr asedau ar gael yn awtomatig ar gyfer dibenion elusennol eraill. Gwerthfawrogwn y gall yr ymagwedd hon olygu bod y sefydliad yn parhau i elwa ar y gostyngiadau treth a'r rhoddion a gafodd ar sail y ddealltwriaeth anghywir bellach ei fod yn elusen pan oedd ar y Gofrestr. Mae Atodiad C yn esbonio ein rhesymau a'r dadleuon cyfreithiol dros arddel y farn honno.

18. Mae'r esboniad uchod yn berthnasol i asedau sefydliad na fu erioed yn elusen ond a gafodd ei gofrestru fel un ar gam. Wrth gwrs, mae'n berffaith bosibl i rodd gael ei rhoi ar ymddiriedolaeth at ddibenion elusennol arbennig (h.y. ar ymddiriedolaethau arbennig) mewn perthynas â sefydliad sydd wedi'i gofrestru ar gam ei hun fel elusen.

19. Os yw'r sefydliad yn gwmni, mae'r sefydliad ei hun yn debygol o fod yn ymddiriedolwr yr asedau hynny. Os nad yw'r sefydliad yn gwmni, yna bydd ei ymddiriedolwyr yn ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth arbennig. Bydd modd cofrestru a gorfodi'r ymddiriedolaethau fel ymddiriedolaethau elusennol yn y ffordd arferol, er i'r sefydliad ei hun gael ei ddileu o'r Gofrestr.

20. Bwriad y rhoddwr, yn bendant neu'n ymhlyg, sy'n bwysig wrth benderfynu beth yw'r ymddiriedolaethau arbennig. Nid yw amcanion y sefydliad y mae'r ymddiriedolaethau arbennig yn gysylltiedig â nhw yn berthnasol.

B. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau cymdeithasol

21. Efallai fod sefydliad wedi cael ei roi ar y Gofrestr a bod hynny'n gywir ond oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol gall ymddangos i ni fod posibilrwydd nad yw'r sefydliad yn elusen mwyach - gweler Atodiad Ch. Gallwn ystyried hawl sefydliad i aros ar y Gofrestr mewn nifer o amgylchiadau - er enghraifft, o ganlyniad i broses yr Adolygiad o'r Gofrestr[4] neu o ganlyniad i'n hystyriaeth o gais presennol i gofrestru.

22. Cyn i'r amgylchiadau godi, ni allwn ac yn wir ni ddylem ragfynegi pa ddibenion fydd yn peidio â bod yn elusennol oherwydd newid mewn amgylchiadau cymdeithasol. Yr hyn y gallwn ei ddweud yw y bydd unrhyw newid yn statws diben arbennig yn cael ei drafod yn llawn â'r sefydliadau dan sylw. Byddwn yn rhoi cymaint o wybodaeth ymlaen llaw ag sy'n bosibl i unrhyw sefydliad sydd i'w weld yn un nad yw'n elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol.

23. Mewn amgylchiadau o'r fath, y cam cyntaf i ni fydd i ni ymgynghori â'r ymddiriedolwyr ac i'r ymddiriedolwyr ystyried, gyda ni, a yw holl amcanion yr elusen yn anelusennol mwyach.

3 Yn amodol ar unrhyw geisiadau gwrthwynebus, e.e. gan roddwyr.
4 Mae proses yr Adolygiad o'r Gofrestr yn broses barhaus, wedi'i hesbonio yn ein cyhoeddiad RR1.

24. Os oes mwy nag un amcan gan y sefydliad, ac os yw o leiaf un o'r amcanion yn parhau i fod yn elusennol (er nad yw'r amcan(ion) eraill yn cael eu hystyried yn elusennol mwyach) bydd yr ymddiriedolwyr wedi'u hymrwymo'n gyfreithiol i ddefnyddio eiddo'r sefydliad dim ond ar gyfer yr amcan(ion) sy'n parhau i fod yn elusennol[5]. Mewn achosion o'r fath, fel rheol byddem yn disgwyl i ymddiriedolwyr wneud trefniadau priodol i ddileu'r amcan(ion) anelusennol o ddogfen lywodraethol yr elusen.

25. Fodd bynnag, os yw'n ymddangos i ni nad yw sefydliad yn elusen mwyach bydd y camau i'w cymryd yn amrywio, yn dibynnu a yw ei eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth, neu a yw'n cael ei ddal yn fuddiol gan gwmni yn ei rinwedd corfforaethol. Mae'r gwahaniaeth rhwng eiddo corfforaethol sydd ym mherchnogaeth fuddiol cwmni ac eiddo sy'n cael ei ddal ar ymddiriedolaeth, naill ai gan gwmni neu gan unrhyw ymddiriedolwyr eraill, yn bwysig[6].

26. Mae unrhyw eiddo sy'n cael ei ddal ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'i ymrwymo'n ddi-droi'n-ôl i elusen (h.y. rhaid iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol bob amser - gweler paragraff 31). Dyma'r achos os yw'r ymddiriedolaethau wedi:

- cael eu datgan yn benodol gan roddwr; neu
- wedi cael eu hymhlygu ar sail awgrymiadau mai bwriad y rhoddwr oedd creu ymddiriedolaeth; neu
- wedi'u gosod gan adran 64(1) o Ddeddf Elusennau 1993, pan fydd cwmni elusennol yn newid ei gyfansoddiad er mwyn peidio â bod yn elusen; neu
- fel arall wedi'u gosod gan y gyfraith, ar y sail y byddai'n anghyfiawn i berchennog cyfreithiol yr eiddo dan sylw arddel perchnogaeth fuddiol.

27. Fodd bynnag, gellir defnyddio eiddo y mae cwmni yn berchen arno yn fuddiol (h.y. ar gyfer ei ddibenion cyffredinol, yn hytrach nag ar ymddiriedolaeth) ar gyfer y dibenion hynny os ydynt yn elusennol yn gyfreithiol neu beidio.

(i) Canlyniadau i eiddo sy'n cael ei ddal ar ymddiriedolaeth i sefydliad sydd wedi'i ddileu o'r Gofrestr oherwydd nad yw'n elusennol mwyach

28. Mae eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth os yw'r sefydliad elusennol yn ymddiriedolaeth, yn gymdeithas anghorfforedig neu'n gorff wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol. Mae eiddo hefyd yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth elusennol gan gwmni os oes tystiolaeth bod yr eiddo yn cael ei roi i'r cwmni ar ymddiriedolaeth ar gyfer ei ddibenion elusennol yn hytrach nag fel cyfraniad at ei eiddo corfforaethol neu os yw ymddiriedolaeth wedi cael ei gosod gan adran 64(1) o Ddeddf Elusennau 1993. Bydd cwmni sy'n dal eiddo parhaol bob amser yn ei ddal fel eiddo ymddiriedolaeth, yn hytrach nag fel rhan o'i eiddo corfforaethol.

(ii) Eiddo sy'n cael ei ddal ar ymddiriedolaeth

29. Y cam cyntaf ym mhob achos lle mae eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth yw i'r ymddiriedolwyr ystyried a ydyn nhw am newid telerau'r ddogfen lywodraethol i gael amcanion sy'n elusennol yn unig.

30. Mae dogfennau llywodraethol rhai sefydliadau yn cynnwys pwerau sy'n caniatáu i'r ymddiriedolwyr (neu aelodau'r elusen) newid yr amcanion eu hunain. Os yw'r ddogfen lywodraethol yn cynnwys pwerau o'r fath gellir eu defnyddio i newid ei thelerau i gynnwys amcanion sy'n elusennol yn unig. Efallai y byddwn yn barod i roi pwerau o'r fath i sefydliadau sydd heb y pwerau hynny. Mewn rhai achosion gall ymddiriedolwyr ddefnyddio'r pwerau yn adran 74 o Ddeddf Elusennau 1993 at y diben hwn.

---

5 Yn amodol ar ychwanegu amcanion elusennol eraill drwy gynllun cy-près neu fel arall. Gall y sefyllfa fod yn wahanol os yw'r elusen yn gwmni: yn ein barn ni, byddai'n rhaid i aelodau'r cwmni basio penderfyniad arbennig i ddileu'r amcan anelusennol o'i femorandwm cymdeithasu er mwyn i'r amcan hwnnw beidio â bod yn amcan y cwmni. Os ydynt yn gwrthod gwneud hynny, byddai'r canlyniadau fel yr hyn a ddisgrifir ym mharagraffau 36 a 37 ac Atodiad Dd.

6 Oni bai bod cyfnod yr ymddiriedolaeth wedi'i gyfyngu'n benodol, e.e. fel yn achos elusen amser.

31. Yn ôl y gyfraith, mae asedau sy'n cael eu dal ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'u hymrwymo'n ddidroi'n-ôl at ddibenion elusennol. Felly, os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gallu neu nid ydynt yn fodlon trefnu i wneud newidiadau i amcanion eu helusen er mwyn iddynt fod yn elusennol yn unig, mae'n rhaid iddynt wneud cais i ni i wneud cynllun cy-près sy'n datgan bod yr asedau sy'n cael eu dal ar ymddiriedolaeth yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol eraill mor debyg â phosibl i ddiben gwreiddiol y sefydliad. Gallwn helpu ymddiriedolwyr i wneud cais o'r fath. Mae Atodiad Ch yn pennu'r awdurdod cyfreithiol ar gyfer y dull hwn o weithredu.

32. Mae ein cyhoeddiad Newid Dogfennau Llywodraethol Elusennau: Gorchmynion a Chynlluniau (CC36), yn rhoi gwybodaeth am y broses gwneud cynllun. Bydd telerau'r cynllun cy-près yn pennu beth fydd yn digwydd i'r sefydliad. Pan fydd cynllun yn cael ei wneud sy'n datgan bod yr eiddo i'w ddefnyddio at amcanion elusennol newydd, bydd yr ymddiriedolaeth yn parhau ar y Gofrestr. Os yw'r cynllun yn datgan bod yr eiddo i'w ddal gan sefydliad elusennol arall caiff y sefydliad gwreiddiol ei ddileu o'r Gofrestr.

(iii) Eiddo ymddiriedolaeth a ddelir ar gyfer cymdeithas anghorfforedig neu gorff wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol

33. Yn achos cymdeithas anghorfforedig neu gorff wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol, mae eiddo yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth at ddibenion y sefydliad. Os nad yw'r dibenion hynny yn elusennol mwyach ac os nad yw'r sefydliad yn newid ei gyfansoddiad i gael dibenion sy'n elusennol yn unig, bydd yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am reoli'r eiddo o dan ddyletswydd i wneud cais i ni am gynllun i ddarparu dibenion elusennol y gellir defnyddio'r eiddo ar eu cyfer. Ar ôl gwneud cynllun bydd yr ymddiriedolwyr yn dal yr eiddo ar gyfer y dibenion elusennol newydd a bydd modd cofrestru'r ymddiriedolaeth honno yn y ffordd arferol.

34. Fel arfer byddwn yn cofrestru'r sefydliad ei hun, yn hytrach nag ymddiriedolaeth ei heiddo. Effaith yr egwyddor gyfreithiol hon a ddisgrifir ym mharagraff 31 fydd bod y sefydliad yn cael ei ysgaru oddi wrth yr eiddo ymddiriedolaeth a arferai gael ei ddal mewn perthynas ag ef os nad yw'r sefydliad yn newid ei gyfansoddiad i gael dibenion elusennol yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn bydd rhaid i ni ddileu'r sefydliad gwreiddiol o'r Gofrestr oherwydd ni fydd yn elusen mwyach yn ein barn ni.

35. Mae effaith adran 3(4) o Ddeddf 1993, o'i ddarllen yn wyneb adran 4(1) (rhagdybiaeth derfynol o statws elusennol tra bod elusen ar y Gofrestr) ac adran 13(1)(e)(ii) (digwyddiad cy-près pan fydd sefydliad yn peidio â bod yn elusennol yn ôl y gyfraith) yn golygu na fydd sefydliad o'r fath yn colli ei statws elusennol hyd nes ei fod yn cael ei ddileu o'r Gofrestr.

(iv) Canlyniadau ar gyfer eiddo sy'n cael ei ddal gan gwmni elusennol sy'n cael ei ddileu o'r Gofrestr oherwydd nid yw'n elusennol mwyach

36. Nid yw eiddo corfforaethol cwmni elusennol yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth yn gyffredinol. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi dod i gasgliad petrus ar y canlyniadau i eiddo sy'n cael ei ddal gan gwmni elusennol pan nad yw amcanion y cwmni i'w gweld yn elusennol yn unig mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol. Mae'r casgliad yn betrus oherwydd hyd yma nid yw'r Llysoedd na'r Comisiwn wedi cael achos lle bu angen gwneud penderfyniad ar y materion sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau hynny. Wrth gwrs, efallai na fydd achos o'r fath yn codi byth.

37. Mae ein casgliad, sy'n cael ei esbonio yn fanwl yn Atodiad D, yn tueddu i ffafrio gosod ymddiriedolaeth elusennol ddehongliadol ar eiddo corfforaethol ym mherchnogaeth fuddiol cwmni sydd yn y sefyllfa honno. Os yw hwnnw'n gywir, mae'r canlyniadau i eiddo corfforaethol y cwmni yn debyg i'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau 28 i 32.

C. Amcanion nad ydynt yn elusennol mwyach o ganlyniad i newid cyfansoddiadol

38. Efallai fod y penderfyniad i roi sefydliad ar y Gofrestr yn gywir, ond efallai fod y sefydliad wedi gwneud newidiadau dilys i'w gyfansoddiad ers hynny sy'n golygu nad yw wedi'i sefydlu mwyach at ddibenion elusennol yn unig.

39. Mae'r camau y dylai'r ymddiriedolwyr a'r Comisiwn eu cymryd yn yr amgylchiadau hyn yn debyg i'r rhai a ddisgrifir ym mharagraffau 28 i 35 uchod. Mae ymddiriedolaeth elusennol statudol yn cael ei gosod ar eiddo corfforaethol cwmni[7] yn yr amgylchiadau[8] hyn felly nid yw'r drafodaeth ym mharagraffau 36 a 37 yn berthnasol yma.

7 heblaw ei gyfalaf.
8 bellach drwy adran 64(1) o Ddeddf 1993.

Atodiad A Dileu sefydliadau o'r Gofrestr

A1. Mae Adran 3(1) o Ddeddf 1993 yn darparu fel a ganlyn:

"Bydd y Comisiwn yn parhau i gadw Cofrestr o elusennau, a bydd yn cael ei chadw yn y modd y gwelant yn dda." Mae hyn yn amlinellu ein rhwymedigaeth benodol i gadw Cofrestr o sefydliadau sy'n elusennau.

A2. Mae Adran 4(1) o Ddeddf 1993 yn darparu fel a ganlyn:

"Rhagdybir y bydd sefydliad at bob diben heblaw unioni'r Gofrestr yn un sydd neu sydd wedi bod yn elusen ar unrhyw adeg pan yw neu pan yr oedd ar y Gofrestr elusennau." Mae hyn yn egluro na ddylai'r Gofrestr gynnwys sefydliadau sydd heb fod yn elusennau.

Mae Adran 3(4) o Ddeddf Elusennau 1993 yn darparu fel a ganlyn: "Bydd unrhyw sefydliad sydd heb fod yn elusen mwyach ym marn y Comisiynwyr yn cael ei ddileu o'r Gofrestr a bydd hynny'n weithredol, os yw'n cael ei ddileu oherwydd unrhyw newid yn ei ddibenion neu ymddiriedolaeth, o ddyddiad y newid hwnnw; a bydd unrhyw elusen sy'n peidio â bodoli neu elusen nad yw'n gweithredu yn cael ei ddileu o'r Gofrestr hefyd."

A3. Mae'r adran hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ddileu sefydliad nad yw - am ba bynnag rheswm - yn ymddangos i ni fel petai'n elusennol. Rhaid dileu pum math o sefydliad o'r Gofrestr o dan y ddyletswydd hon:

1. Sefydliadau a oedd, adeg cofrestru, wedi'u dosbarthu'n gywir gennym fel rhai elusennol ond sydd ers hynny wedi gwneud newidiadau cyfansoddiadol dilys sy'n atal y sefydliadau rhag parhau i ymddangos i ni fel rhai sydd wedi'u sefydlu at ddibenion elusennol yn unig. Yn yr amgylchiadau hyn, mae colli statws elusennol yn digwydd o ddyddiad y newidiadau.
2. Sefydliadau a oedd yn elusennol yn wreiddiol ond nad ydynt, heb unrhyw newid cyfansoddiadol, yn ymddangos i ni mwyach fel rhai elusennol oherwydd newidiadau yng ngwerthoedd cymdeithas sydd wedi arwain at ganfyddiad gwahanol o natur ac effaith dibenion y sefydliadau. Yn yr amgylchiadau hyn, mae colli statws elusennol yn digwydd o'r dyddiad y mae'r sefydliad yn cael ei ddileu o'r Gofrestr.
3. Sefydliadau na fu erioed yn elusennol, ond a gafodd eu hystyried ar gam fel rhai elusennol adeg cofrestru, ac mae'r camgymeriad wedi cael ei gydnabod ers hynny.
4. Sefydliadau sydd wedi peidio â bodoli, er enghraifft, cwmni neu gymdeithas anghorfforedig sy'n dirwyn i ben, neu ymddiriedolaeth sy'n cael ei therfynu, yn unol â phwerau priodol.
5. Sefydliadau nad ydynt yn gweithredu, er enghraifft sefydliad nad yw'n cyflawni unrhyw weithgareddau ac sy'n segur.

Atodiad B Elusennau ffug

B1. Mewn achosion prin bydd rhaid i'r Comisiwn ystyried y posibilrwydd bod corff sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen yn elusen ffug mewn gwirionedd.

B2. Bydd y llys yn gwrthod gorfodi ymddiriedolaeth pe byddai hynny'n golygu ei fod yn helpu i hybu diben gwrthgymdeithasol cudd ar ran hyrwyddwyr yr ymddiriedolaeth. Ond mae ymateb y llysoedd i ymddiriedolaethau ffug wedi bod yn hyblyg. Trin yr ymddiriedolaeth fel un arnorfodadwy yw un yn unig o'r atebion a fabwysiadwyd gan y llysoedd i sicrhau nad ydynt yn hybu camddefnyddio ymddiriedolaethau.

B3. Yn ôl pob golwg ni fu unrhyw achos penderfynol lle mae llys yng Nghymru a Lloegr wedi dod i'r casgliad bod sefydliad a ffurfiwyd fel elusen yn elusen ffug. Ond mae'r llysoedd wedi cydnabod yr angen i fod yn ymwybodol o ddogfennau ffug yng nghyd-destun elusennau. Yn Re McDougall [1957] 1 WLR 321 roedd y barnwr yn wynebu ymddiriedolaeth at ddibenion elusennol wedi'u mynegi mewn iaith glir, ddiamwys ac nid oedd yn barod i ddehongli'r ymddiriedolaeth fel un oedd yn ceisio hybu diben gwleidyddol oherwydd y byddai'r ymddiriedolwyr yn aelodau o blaid wleidyddol.

B4. Yn yr achos hwnnw roedd y barnwr wedi nodi nad oedd unrhyw un wedi awgrymu bod dogfen lywodraethol yr ymddiriedolaeth yn 'weithred ffug i guddio'r gwir bwrpas'. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y barnwr wedi ystyried, fel posibilrwydd cyfreithiol, o gael tystiolaeth wahanol, byddai wedi gorfod dod i benderfyniad oedd yn sicrhau nad oedd y llys yn helpu sefydliad a ffurfiwyd fel elusen i gyflawni diben anelusennol.

B5. Os yw ymddiriedolaeth elusennol honedig yn anorfodadwy, nid yw sefydliad a ffurfiwyd at ddibenion elusennol yn bodoli[9]. Bydd sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen ac y dangosir yn ddiweddarach ei fod yn elusen ffug yn cael ei ddileu o'r Gofrestr ar y sail bod y cofrestriad gwreiddiol yn anghywir.

B6. Mewn rhai achosion mae tystiolaeth wedi cael ei rhoi i'r Comisiwn bod dogfen lywodraethol sefydliad sydd wedi cael ei gofrestru fel elusen yn weithred ffug i guddio gwir amcanion y sefydliad. Mewn rhai achosion mae'n amlwg nad yw'r gwir ddibenion hyn yn elusennol, a'u bod hefyd yn anfoesol, yn dwyllodrus, yn anonest neu fel arall yn groes i bolisi cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn gall "yn groes i bolisi cyhoeddus" gynnwys ecsbloetio statws elusennol at ddibenion masnachol ac ymgymryd â phropaganda gwleidyddol.

B7. Weithiau bu'n rhaid i ni ystyried y camau y dylid eu cymryd i sicrhau nad yw cydnabod sefydliad o'r fath fel elusen yn ei helpu i hybu'r dibenion anelusennol sylfaenol. Mae ystyried yr ymddiriedolaeth yn un anorfodadwy yn golygu bod rhaid dileu'r sefydliad o'r Gofrestr - gweler paragraff B5 - ond mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol i roi cyfle i'r sefydliad derfynu'r gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn anelusennol yn gyntaf.

B8. Nid yw casglu bod sefydliad sydd wedi'i gofrestru fel elusen yn elusen ffug yn un y byddai'r Comisiwn yn dod iddo heb ystyriaeth lawn. Rhaid cofio'r gwahaniaeth rhwng elusen ffug ac elusen go iawn sy'n cael ei cham-drin gan y rhai sy'n ei rheoli. Nid yw'n briodol i drin gwir elusen sy'n cael ei cham-drin gan y rhai sy'n ei rheoli yn yr un ffordd ag y byddem yn trin elusen ffug. Mae cyfrifoldeb statudol gennym i ddelio ag achosion o gam-drin elusennau, a chyflawnwn y ddyletswydd hon drwy arfer ein swyddogaethau monitro, ymgynghori a goruchwylio. Ni fyddem yn cyflawni ein cyfrifoldeb pe byddem yn trin gweithgarwch anelusennol heb ei awdurdodi fel tystiolaeth derfynol nad yw'r sefydliad yn elusen go iawn ac yn hytrach yn elusen ffug.

B9. Mae'n bosib bod unrhyw un sydd trwy wybod yn rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol i ni er mwyn ceisio cofrestru sefydliad y dangosir wedi hynny ei fod yn elusen ffug yn cyflawni trosedd - adran 11(1) o Ddeddf Elusennau 1993.

9 Hynny yw, sefydliad sydd o dan reolaeth yr Uchel Lys wrth arfer awdurdodaeth y Llys mewn perthynas ag elusennau - Adran 96(1) o Ddeddf Elusennau 1993.

Atodiad C Elusennau sy'n cael eu cofrestru ar gam

C1. Yn ein barn ni, mae cofrestru sefydliad rydym yn credu yn ddiweddarach na fu erioed yn elusen (rydym wedi gwneud camgymeriad, neu cawsom wybodaeth anghywir neu gamarweiniol, neu oherwydd bod penderfyniad dilynol y llys yn dangos bod barn gyffredinol cyfraith gwlad yn anghywir, neu oherwydd bod y sefydliad, ers iddo gael ei gofrestru, yn amlwg yn elusen ffug) yn weithred y tu allan i'n pwerau.

C2. Ein dyletswydd o dan adran 3(2) o Ddeddf 1993 yw "rhoi pob elusen ar y Gofrestr" (oni bai ei bod wedi'i heithrio rhag cael ei chofrestru) ac nid unrhyw sefydliad arall. Mae'r egwyddor berthnasol[10] yn awgrymu bod cofrestru sefydliad nad oedd, adeg cofrestru, yn gyfreithiol elusennol yn cael rhyw fath o effaith gyfreithiol dim ond hyd at yr adeg pan fydd y camgymeriad wedi'i gywiro, er enghraifft drwy ddileu'r sefydliad o'r Gofrestr[11].

C3. Ar ôl ei ddileu, nid yw unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn dilyn o'r penderfyniad anghywir gwreiddiol i gofrestru. Yn benodol mae'r sefydliad yn cael ei drin fel un na fu erioed ar y Gofrestr, ac felly ni all y rhagdybiaeth derfynol o statws elusennol yn adran 4(1), ar unrhyw adeg "pan oedd ar y Gofrestr" fod yn berthnasol iddo mwyach. Enghraifft o sefydliad a gafodd ei roi ar y Gofrestr ar gam yw un a gafodd ei gofrestru drwy ddibynnu ar achos barnwrol y penderfynwyd yn ddiweddarach ei fod yn anghywir[12].

C4. Nid yw dileu o'r Gofrestr yn pennu'n derfynol nad yw'r sefydliad yn elusen; mae'n golygu nad yw'r sefydliad i'w weld yn elusen mwyach yn ein barn ni. Ond, yn ein barn ni, os yw elusen wedi cael ei dileu o'r Gofrestr, ac roedd ei chofrestriad gwreiddiol yn gamgymeriad, bydd materion eiddo a statws sy'n berthnasol i'r sefydliad hwnnw sy'n codi ar ôl ei ddileu yn cael eu penderfynu'n gyfreithiol heb gyfeirio at y ffaith ei fod wedi'i gofrestru ar un adeg fel elusen.

C5. Mae hyn yn golygu na fydd eiddo'r sefydliad a gafodd ei ddileu o'r Gofrestr ar y sail na fu erioed yn elusen yn cael ei ystyried yn eiddo oedd wedi'i ymrwymo'n ddi-droi'n-ôl at ddibenion elusennol. Gall eiddo o'r fath gynnwys elwa ar unrhyw ostyngiadau treth a'r rhoddion a gafodd eu rhoi ar sail y ddealltwriaeth anghywir ei fod yn elusen, yn ystod y cyfnod pan oedd y sefydliad ar y Gofrestr.

C6. Mae'n bosibl y bydd yr Adrannau Cyllid, mewn rhai amgylchiadau, yn gorfod ac yn dymuno gorfodi ceisiadau statudol a/neu adferol yn erbyn y sefydliad ar gyfer adfer gostyngiadau y mae wedi'u cael ar sail y ddealltwriaeth anghywir ei fod yn elusen. Gall rhoddwyr fod â hawliau adferol hefyd o ran y rhoddion y maent wedi'u rhoi ar sail camddealltwriaeth tebyg. Ond mae'r rhain yn faterion na all y Comisiwn gynnig cyngor manwl arnynt: y dybiaeth yw nad yw eiddo'r sefydliad yn cael ei ddal at ddibenion elusennol.

C7. Os yw'r dadansoddiad hwn (nad yw unrhyw ganlyniadau cyfreithiol yn dilyn o'r penderfyniad anghywir gwreiddiol i gofrestru) yn anghywir, byddai'r penderfyniad i ddileu dim ond yn cael effaith arfaethedig, h.y. dim ond ar yr adeg pan gaiff ei ddileu. Byddai hynny'n creu dau anhawster.

Y cyntaf yw y gall y rhagdybiaeth fod asedau sy'n cael eu dal ar ymddiriedolaeth elusennol wedi'u hymrwymo'n ddi-droi'n-ôl i elusen fod yn gymwys i asedau'r sefydliad a byddai'n rhaid i'r asedau gael eu defnyddio cy-près. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn golygu, os na fu'r sefydliad erioed yn elusen, bod y sefydliad yn cael ei orfodi i roi'r asedau i'r elusen.

Yr ail yw na all fod unrhyw sail foddhaol dros benderfynu i ba ddibenion elusennol y dylai'r rhodd orfodadwy gael eu rhoi. Gan nad fu'r sefydliad erioed yn elusen yn ôl y gyfraith, ni fyddai unrhyw fan cychwyn ar gyfer penderfynu pa ddibenion elusennol fyddai'n cy-près.

10 Egwyddor "diddymdra ôl-weithredol o ddeddfau *ultra vires* awdurdodau cyhoeddus."

11 Gweler er enghraifft Lewis, "Judicial remedies in Public Law", pennod 5 (Argraffiad 1af).

12 Er enghraifft, petai'r drefn bresennol o gofrestru elusennau wedi bodoli yn 1895 (nid oedd yn bodoli bryd hynny), mae'n bosib y gallai'r Anti-vivisection Society fod wedi cael ei gofrestru drwy ddibynnu ar ddyfarniad yr Uchel Lys yn Re Foveaux [1895] 2 Ch 501. Yn 1948 penderfynwyd bod y dyfarniad yn anghywir gan Dŷ'r Arglwyddi yn National Anti-Vivisection Society v IRC [1948] AC 31. Byddai'r gymdeithas wedi cael ei dileu o'r gofrestr ddamcaniaethol yn 1948 oherwydd iddi gael ei chynnwys ar gam.

Atodiad Ch Defnyddio asedau cy-près

Ch1. Mae'r amgylchiadau pan ddylai eiddo elusennau gael ei ddefnyddio cy-près wedi'i nodi yn adran 13(1) o Ddeddf Elusennau 1993. Mae adran 13(1)(e)(ii) yn darparu bod modd newid dibenion rhodd elusennol er mwyn i'r eiddo gael ei ddefnyddio cy-près.

"Os yw'r dibenion gwreiddiol, yn llwyr neu'n rhannol, ers iddynt gael eu gosod wedi,

(i) oherwydd eu bod yn ddiwerth neu'n niweidiol i'r gymuned neu am resymau eraill, peidio â bod yn elusennol yn ôl y gyfraith;"

Ch2. Mae adran hon y Ddeddf yn delio ag achosion pan fydd sefydliad wedi peidio â bod yn elusennol naill ai oherwydd ei fod wedi newid ei gyfansoddiad er mwyn cael dibenion anelusennol[13] neu oherwydd nad yw ei ddibenion yn cael eu hystyried yn rhai elusennol mwyach yn ôl y gyfraith oherwydd newid mewn amgylchiadau neu werthoedd cymdeithasol[14].

Ch3. Cafodd dyletswydd ymddiriedolwyr i gymryd camau cadarnhaol i ddefnyddio eu heiddo cy-près os yw eu sefydliad wedi peidio â bodoli yn ôl y gyfraith ei datgan yn wreiddiol gan yr Arglwydd Simonds yn National Anti-Vivisection Society v IRC [1948] AC 31, 74 pan ddywedodd: "Os yw dibenion elusen sefydledig, oherwydd newid yn arferion neu anghenion cymdeithasol, neu efallai oherwydd newid yn y gyfraith, yn ddiangen neu hyd yn oed yn anghyfreithlon, neu os yw'n ymddangos gyda mwy o wybodaeth bod diben a gafodd ei ystyried ar un adeg yn fuddiol yn wirioneddol niweidiol i'r gymuned, dyletswydd ymddiriedolwyr elusen sefydledig yw gwneud cais i'r Llys neu mewn achosion addas i'r Comisiynwyr Elusennau ... a gofyn iddynt sefydlu cynllun cy-près."

Ch4. Cafodd dyletswydd ymddiriedolwyr i wneud cais am gynllun cy-près ei rhoi ar ffurf statudol yn yr hyn sydd bellach yn adran 13(5) o Ddeddf Elusennau 1993 sy'n darparu:

"Datgenir drwy hyn fod ymddiriedolaeth at ddibenion elusennol yn rhoi dyletswydd ar ymddiriedolwr, os yw'r achos yn caniatáu ac yn gofyn i'r eiddo neu ryw ran o'r eiddo gael ei ddefnyddio cy-près, i sicrhau bod yr elusen yn ei ddefnyddio'n effeithiol drwy gymryd camau sy'n galluogi'r elusen i'w ddefnyddio felly."

Ch5. Mae'r gyfraith yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio eiddo cy-près mewn amgylchiadau perthnasol drwy roi pwerau i'r Comisiynwyr wneud cynllun, hyd yn oed os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gwneud cais i gynllun gael ei wneud o'u gwirfodd.

13 IRC v. Yorkshire Agricultural Society [1928] 1 KB 611, 633.
14 National Anti-Vivisection Society v. IRC [1948] AC 31,74.

Atodiad D Eiddo a ddelir gan gwmnïau elusennol

D1. Sut dylai eiddo corfforaethol cwmni gael ei drin pan na fydd yr amcanion sydd wedi'u datgan yn ei femorandwm cymdeithasu i'w gweld yn elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol? Nid yw Erthygl 1 Protocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud â diogelu eiddo yn rhoi unrhyw ganllawiau ar hyn oherwydd byddai wedi'i gynnwys o fewn yr hyn a elwir yn "margin of appreciation" y Wladwriaeth.

D2. Yn ein barn ni, nid yw amcanion y cwmni, wedi'u datgan yn ei femorandwm cymdeithasu, wedi'u heffeithio gan y newid yng nghymeriad y cwmni, oni bai a hyd nes bod yr amcanion hynny yn cael eu newid yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 1985.

D3. Roedd y posibilrwydd y byddai amcanion cwmni elusennol (wedi'u datgan yn ei femorandwm cymdeithasu) oedd yn cael ei hun yn y sefyllfa honno yn cael eu newid yn awtomatig i ddibenion elusennol yn unig drwy weithrediad y gyfraith wedi cael ei ystyried yn y papur ymgynghori cyhoeddus, ond ni chafodd ei gefnogi gan ymatebwyr. Rydym yn dal i arddel y farn fod newidiadau i amcanion cwmni drwy weithrediad y gyfraith yn anghyson â'r gyfraith cwmnïau. Mae adran 2(1)(c) o Ddeddf Cwmnïau 1985 yn dweud bod rhaid i'r memorandwm cymdeithasu ddatgan amcanion y cwmni ac, wrth gwrs, mae'n bosib nad yw'n gwneud hynny os yw'r amcanion yn gallu cael eu newid drwy weithrediad y gyfraith.

D4. Un o amcanion Deddf Cwmnïau 1985 yw sicrhau bod cofnod cyhoeddus digonol ar gael ar gyfer amcanion cyfredol cwmnïau. Cyflawnir hyn drwy'r gofyniad bod cwmnïau yn rhoi manylion i'r Cofrestrydd Cwmnïau am unrhyw newidiadau y maent yn eu gwneud i'w hamcanion drwy benderfyniad. Nid yw darpariaethau'r Ddeddf hon fel petaent yn ystyried y posibilrwydd o newid amcanion drwy weithrediad y gyfraith. Yn wir, yn wyneb natur fetaffisegol unrhyw newid o'r fath, mae'n anodd gweld sut y gallai unrhyw ddarpariaeth ynglŷn â rhoi rhybudd i'r Cofrestrydd Cwmnïau am unrhyw newid o'r fath fod yn ymarferol.

D5. Felly'r cwestiwn i'w ystyried mewn gwirionedd yw hyn - os nad yw amcanion cwmni sydd wedi'u datgan yn ei femorandwm cymdeithasu i'w gweld yn elusennol mwyach oherwydd newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol, a yw ymddiriedolaeth ar gyfer dibenion elusennol yn cael ei hatodi i'r eiddo sydd ym mherchnogaeth fuddiol y cwmni. Os nad oes unrhyw ymddiriedolaeth o'r fath, bydd yr eiddo hwnnw yn parhau i fod yn un y gellir ei ddefnyddio ar gyfer amcanion y cwmni, er gwaetha'r ffaith nad yw eu heffaith gyfreithiol yn elusennol mwyach.

D6. Yn James v Williams (1999) 3 All ER 309 dywedodd Aldous LJ:

> "Fel rheol mae'r gyfraith yn atodi ymddiriedolaeth adeiladol i eiddo sy'n cael ei ddal gan rywun mewn achos pan fyddai'n anghyfiawn i ganiatáu iddo gael perchnogaeth fuddiol lawn o'r eiddo."

D7. Os mai dyma yw'r achos bydd eiddo corfforaethol cwmni[15] yr oedd ei amcanion yn elusennol ar un adeg, ond nid ydynt i'w gweld yn elusennol mwyach, yn parhau i gael eu defnyddio at ddibenion elusennol, a dylent (oni bai bod y cwmni yn dewis mabwysiadu amcanion sy'n parhau i fod yn elusennol) gael eu defnyddio cy-près. Wrth gwrs, byddai hynny'n golygu bod trin eiddo corfforaethol cwmnïau elusennol yn gyson â thrin mathau eraill o eiddo elusennol.

D8. Mae'r ddadl bod eiddo corfforaethol cwmni elusennol wedi'i ymrwymo'n ddi-droi'n-ôl at ddibenion elusennol yn seiliedig ar ddatganiadau barwnol mewn dau achos eithaf diweddar. Yn Liverpool and District Hospital for Diseases of the Heart v Attorney-General [1981] 1 Ch 193, 214 dywedodd Slade J:

15 heblaw ei gyfalaf tanysgrifedig neu warantedig. Mae'n anodd gweld sut y gallai ymddiriedolaeth o'r fath gael ei gosod ar gyfalaf tanysgrifedig neu warantedig cwmni heb wrthdaro â gofynion sylfaenol y gyfraith cwmnïau. Yn wir, mae cyfalaf o'r fath wedi'i wahardd o gwmpas yr ymddiriedolaeth statudol sy'n cael ei gosod yn gyffredinol gan adran 64(1) o Ddeddf Elusennau 1993 ar eiddo corfforaethol cwmni sy'n colli statws elusennol o ganlyniad i newid cyfansoddiadol.

"Yn yr achos hwn, fel y nodais, nid wyf o'r farn bod asedau'r Gymdeithas yn cael eu dal ganddynt yn amodol ar ymddiriedolaeth yn ystyr manylaf y gair. Fodd bynnag, o dan delerau ei chyfansoddiad, roeddent bob amser yn cael eu dal yn amodol ar rwymedigaeth gyfreithiol rwymol, a oedd yn ei rhwymo i'w defnyddio ar gyfer dibenion elusennol yn unig. Felly gellir dweud bod sefyllfa'r Gymdeithas o ran ei hasedau bob amser yn cyfateb i ymddiriedolwr ar gyfer dibenion elusennol. Yn fy marn i mae hyn yn ddigon i arfer awdurdodaeth y Llys a gorchymyn cynllun cy-près ar gyfer y digwyddiadau sydd wedi codi."

D9. Wrth ddod i'r casgliad y dylai asedau cwmni elusennol wrth ddirwyn i ben gael eu defnyddio cy-près, cyfeiriodd a dibynnodd Slade J ar benderfyniad Buckley J yn Re Vernon's Will Trusts [1972] Ch 300 pan ddywedodd:

"Wrth ystyried a fyddai'n gywir ac i ba raddau y byddai'n gywir i ystyried cronfeydd yr Urdd gorfforedig fel rhai sy'n amodol ar ymddiriedolaeth elusennol, nid wyf am wneud mwy na nodi ei bod yn ymddangos y byddai unrhyw asedau yr oedd wedi'u cymryd drosodd o'r Urdd anghorfforedig yn amodol ar ymddiriedolaeth o'r fath. Fodd bynnag, ymddiriedolaeth neu beidio, mae'n wir i ddweud bod asedau'r Urdd gorfforedig wedi'u hymrwymo i bob pwrpas i'r elusen. Ni allai unrhyw gronfeydd o'r fath - o leiaf heb ymyrraeth y Senedd - fod wedi cael eu defnyddio fel arall heblaw ar gyfer y math o ddibenion elusennol yr oedd yr Urdd yn bodoli ar eu cyfer ar yr amod bod y dibenion hynny'n parhau i fod yn ymarferol. Hyd yn oed os yw'r dibenion hynny yn peidio â bod yn ymarferol, ni fyddai'r elusen yn peidio â bodoli, er byddai ei chronfeydd yn cael eu defnyddio cy-près. Ni allai elusen o'r fath, sy'n cael ei hystyried yn elusen ac ar wahân i'r mecanwaith a ddarperir am y tro ac o bryd i'w gilydd ar gyfer dal ei heiddo a rheoli ei materion, byth peidio â bodoli ac eithrio drwy ddefnyddio ei holl asedau a rhoi'r gorau i'w gweithgareddau. Ni allai newid yn ei hagwedd fecanyddol gynnwys yr elusen yn peidio â bodoli. Mae'r egwyddor ym mhenderfyniad Re Faraker [1912] 2 Ch 488 ac In re Lucas [1948] Ch 424 yr un mor gymwys, yn fy marn i, i elusen gorfforedig o'r math ag y mae i elusen wedi'i chyfansoddi drwy gyfrwng ymddiriedolaeth. Mewn achosion o'r fath mae'r gyfraith yn ystyried yr elusen yn gysyniad haniaethol ar wahân i'r mecanwaith sefydliadol a ddarperir ar gyfer dal a gweinyddu cronfa'r elusen."

D10. Erbyn hyn mae'n weddol glir nad yw eiddo corfforaethol cwmni elusennol, yn debyg i unrhyw gwmni arall, yn cael ei ddal ar ymddiriedolaeth yn gyffredinol. Yn Rabin v Gerson Berger Association Limited (1987 - heb ei adrodd arno ar hyn o bryd) dywedodd Ralph Gibson LJ:

"Egwyddor y gyfraith, yn ôl fel yr wyf yn ei deall, yw nid yw cwmni at ddibenion elusennol yn unig, trwy rinwedd y nodwedd honno yn unig, yn dal y cyfan o'i eiddo ar ymddiriedolaeth; gall berchen ar eiddo'n fuddiol sydd, o achos ei gyfansoddiad, y mae'n rhaid iddo ei ddefnyddio ar gyfer ei ddibenion elusennol ..."

D11. Er nad oedd y barnwyr yn achosion Ysbyty Lerpwl a Vernon wedi mynegi'r pwynt fel hyn, byddai'n ymddangos mai'r unig sail gysyniadol ar gyfer amddifadu cwmni o berchnogaeth fuddiol o'i eiddo corfforaethol (er mwyn sicrhau bod yr eiddo wedi'i ymrwymo'n ddi-droi'n-ôl i ddibenion elusennol, er gwaetha'r ffaith nad yw amcanion y cwmni yn cael eu hystyried yn elusennol mwyach) yw trwy osod ymddiriedolaeth.

D12. Yn y papur ymgynghori cyhoeddus cyfeiriwyd at nifer o bryderon ynghylch barn y gyfraith bod ymddiriedolaeth wedi'i gosod ar eiddo corfforaethol cwmni oedd yn cael ei hun yn y sefyllfa hon. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebwyr yn rhannu'r pryderon hyn; y consensws oedd y byddai ymddiriedolaeth elusennol yn cael ei gosod gan y Llys er mwyn sicrhau bod yr eiddo yn parhau i fod yn un y gellid ei ddefnyddio at ddibenion elusennol. Y teimlad cyffredinol oedd y byddai'n anghyfiawn i gwmni anelusennol gymryd perchnogaeth fuddiol o eiddo y cymerir ei fod wedi cronni ar sail cydnabyddiaeth flaenorol, gywir fod y cwmni yn elusen.

D13. Y cwestiwn sylfaenol i'r Comisiwn yn hyn oll yw pan fydd cwmni yn peidio â bod yn elusennol yn y ffordd hon, a ddylai'r Comisiwn ddatgan bodolaeth, a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i orfodi, ymddiriedolaeth dros eiddo corfforaethol y cwmni.

D14. Nid oes unrhyw ateb cyfreithiol pendant i'r cwestiwn hwn ar hyn o bryd. Mae'r cwestiwn heb godi, yn ymarferol, ac wrth gwrs mae'n bosib na fydd yn codi byth.

D15. Os yw ymddiriedolaeth yn cael ei gosod ar eiddo corfforaethol cwmni sydd wedi peidio â bod yn elusennol o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau a gwerthoedd cymdeithasol, byddai dyletswydd ar y Comisiwn i orfodi'r ymddiriedolaeth honno, yn amodol yn amlwg ar ymarferoldeb y sefyllfa, ac felly sicrhau bod eiddo'r cwmni yn parhau i fod yn un y gellir ei ddefnyddio at ddibenion elusennol.

D16. Ond ni fyddai'n realistig i ddychmygu na fyddai cwmni sydd yn cael ei hun yn y sefyllfa hon byth yn herio'r honiad bod ymddiriedolaeth wedi cael ei gosod gan y gyfraith ar ei eiddo corfforaethol. Efallai fod cwmni a gafodd ei ffurfio er mwyn hybu diben penodol, ac roedd y gwerth cymdeithasol hwnnw yn cael ei ystyried yn un sydd wedi diflannu yn gyffredinol, fod yn awyddus o hyd i barhau â'r diben hwnnw. Gallai'r cwmni fod mewn sefyllfa i:

- ddadlau fod ei eiddo wedi cronni llai ar sail y gydnabyddiaeth flaenorol ei fod yn elusen a mwy ar frwdfrydedd ei gefnogwyr dros y diben arbennig y mae'r cwmni yn ymwneud ag ef; a
- dadlau yn erbyn yr honiad "y byddai'n anghyfiawn i ganiatáu iddo gael perchnogaeth fuddiol lawn o'i eiddo corfforaethol."

D17. Yn amlwg bydd penderfynu i ba raddau y mae'r Comisiwn yn datgan ac yn ceisio gorfodi ymddiriedolaeth yn yr amgylchiadau hyn yn dibynnu ar y cyngor cyfreithiol y mae'n ei gael os a phan fydd yr amgylchiadau hynny'n codi.

© Hawlfraint y Goron 2000. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau
Ffôn: **0845 300 0218**
Typetalk: **0845 300 0219**
Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Cadw cofrestr elusennau gywir. Tachwedd2000.

RR6